## Newyddion diweddaraf Data Cymru – WSLC Mehefin 2024

**Prosiectau a lansiwyd yn ddiweddar:**

### *1. Rhwydwaith Arweinwyr Data Strategol (SDLn)*

Mae'r SDLn yn rhwydwaith llywodraeth leol ar gyfer uwch swyddogion data h.y. y swyddogion hynny sydd â chyfrifoldeb cyffredinol, strategol dros ddata, ei reoli a'i ddefnydd. Bydd y rhwydwaith, a gafodd ei sefydlu yn Chwefror 2024, yn:

- cynnig 'man diogel' i unigolion mewn rolau tebyg ddod ynghyd a dysgu oddi wrth ei gilydd;
- galluogi cynghorau lleol i gydweithio ar atebion a rennir i heriau / rhwystrau cyffredin, gyda'n cefnogaeth ni; ac yn
- gadael i ni gysylltu ymhellach â'n rhanddeiliaid allweddol er mwyn iddynt gael lywio ein rhaglen waith yn y dyfodol.

Rydym wedi cytuno y bydd pob cyfarfod yn canolbwyntio ar bwnc / her data penodol. Ym mhob cyfarfod, bydd y cynghorau lleol hynny sy'n ymdrin, neu wedi ymdrin â'r her yn rhannu eu gwersi i helpu eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg. Yna byddwn yn nodi unrhyw ystyriaethau parhaus mae cynghorau lleol yn eu hwynebu ac yn cytuno sut allwn ni, yn lleol, ac ar y cyd, alluogi pawb i godi i'r her.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper.

### *2. Gweithgor aeddfedrwydd data*

Rydym wedi sefydlu is-grŵp i'r SDLn, i edrych yn benodol ar aeddfedrwydd data ar draws cynghorau lleol. Mae'r is-grŵp yn cynnwys cynghorau lleol sy'n awyddus i ymgymryd ag asesiad aeddfedrwydd data. Mae asesiad aeddfedrwydd data yn gam cyntaf ardderchog i unrhyw gyngor sy'n dymuno gwella sut maent yn rheoli ac yn defnyddio data gan ei fod yn caniatáu iddynt nodi eu cryfderau a'u gwendidau.

Y bwriad yw y bydd y gweithgor yn cytuno ar y dull sydd orau ganddynt y bydd pob cyngor lleol (neu'r mwyafrif) yn ei ddilyn. Fel yna, nid yn unig y bydd cynghorau yn cael yr wybodaeth mae arnynt ei hangen er mwyn gwella, ond cawn ddechrau crynhoi'r wybodaeth ledled Cymru er mwyn deall y darlun ehangach a sut allwn ni helpu i ymdrin â rhai o'r heriau cyffredin.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper.

### *3. Proffiliau perfformiad*

Rydym wedi datblygu cyfres o broffiliau perfformiad i helpu i gefnogi'r broses o hunan-asesu gan awdurdodau lleol. Mae'r proffiliau wedi'u bwriadu fel adnodd ar gyfer cydweithwyr mewn perfformiad corfforaethol a staff mewn gwasanaethau i'w helpu i ddeall eu perfformiad a sut mae hyn yn cymharu ag eraill. Yn ogystal, byddant yn cynnig gwybodaeth werthfawr i helpu i lywio Asesiadau Panel Cymheiriaid. Cafodd y proffiliau eu

rhannu â chydweithwyr ym meysydd perfformiad a gwella ar ddiwedd Mawrth a byddant ar gael yn ehangach o fewn cynghorau cyn bo hir. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn, a hynny oddi wrth gynghorau lleol a phaneli cymheiriaid fel ei gilydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper.

**Prosiectau allweddol rydym wrthi'n gweithio arnyn nhw:**

***4. Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol***

Yn dilyn peilot llwyddiannus ym Mro Morgannwg, rydym ni bellach yn datblygu Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol. Bydd y dull sy'n cwmpasu Cymru-gyfan yn cynyddu cymaradwyedd, yn lleihau costau, yn galluogi meincnodi, ac yn gostwng y rhwystr i gymryd rhan i'r cynghorau lleol hynny nad ydynt yn cynnal arolwg preswylwyr ar hyn o bryd. Mae drafft cyntaf yr arolwg wedi cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog a'i rannu â phob un o'r 22 cyngor lleol am eu sylwadau. Rydym yn gweithio trwy'r adborth a gafwyd ac yn datblygu fersiwn terfynol o'r arolwg. Hefyd rydym yn gweithio trwy'r gofynion o ran llywodraeth gwybodaeth / GDPR ac yn datblygu'r modiwlau allbwn. Bydd arolygon ar gael o ganol Gorffennaf ymlaen ac yn ôl yr arwyddion presennol bydd y defnydd arnynt yn gryf yn y flwyddyn gyntaf - mae 11 o gynghorau eisoes wedi nodi y byddant yn cynnal yr arolwg yn 2024-25.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

***5. Casgliad data gwasanaethau ieuenctid***

Rydym wedi gweithio gyda Safonau Hyfforddiant Addysg / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatbygu arolwg o'r gweithlu gweithwyr ieuenctid yng Nghymru, yn ogystal ag arolwg o gyflogwyr y gweithlu ieuenctid yng Nghymru. Bwriad yr arolygon yw nodi bylchau sgiliau a datblygu rhaglenni hyfforddiant priodol i fynd i'r afael â nhw. Daeth yr arolwg i ben ar ddiwedd Ebrill, ac rydym ni wrthi'n glanhau ac yn dadansoddi'r atebion.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

***6. Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches (UASC)***

Rydym yn dylunio, a byddwn yn cynnal, casgliad data i gyfrif nifer y Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches y mae cynghorau lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdanynt. Bydd hyn yn caniatáu i gynghorau lleol a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru gael darlun cenedlaethol, unedig o leoliadau, gan gynnwys lleoliadau tu allan i'r sir a thu allan i'r wlad.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

***7. Dangosfwrdd cydraddoldebau***

Rydym yng nghyfnod olaf datblygu dangosfwrdd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr archwilio amrywiol ddangosyddion yn ôl nodweddion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff hwn ei gyhoeddi yn chwarter cyntaf 2024-25.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper.

### *8. Dangosfwrdd ac adnewyddu data Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru*

Rydym yng nghyfnod olaf datblygu dangosfwrdd ac adnewyddu data ar gyfer y Bartneriaeth. Rydym wedi dwyn ynghyd setiau data sydd wedi'u diweddaru a'u hehangu am fydwyr, ffoaduriaid, a cheiswyr lloches. Caiff hwn ei gyhoeddi yn chwarter cyntaf 2024-25.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sam Sullivan.

## Hyfforddiant a gweminarau

### Canllawiau hyfforddiant

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau hyfforddiant ar y canlynol:

- Cyfleu eich pwynt: Cyflwyniad i gyflwyno data yn effeithiol
- Deall eich gwybodaeth: Cyflwyniad i ystadegau cryno
- Clywed gan ddinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal arolygon
- Ymgysylltu â dinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal grwpiau ffocws

Maen nhw ar gael yn rhad ac am ddim ar ein gwefan.

### Rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'

Cynhaliwn weminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'. Am fwy o wybodaeth ac i archebu tocynnau, ewch i TicketSource.

Mae recordiadau o'n gweminarau blaenorol ar gael ar ein gwefan.

Rydym ni bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, gwneud, neu wrthi'n gwneud rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – llwyddiannus neu fel arall. Yn yr un modd, byddem wrth ein bodd i glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil hoffech chi ddysgu mwy amdanyn nhw.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

### Rhaglen hyfforddiant agored adeiladu capasiti

Ydych chi am ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau echdynnu mwy o werth ohono? Ydych chi'n ystyried ehangu'ch sgiliau?

Mae gennym ni gyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

Cynhaliwn bob un o'n cyrsiau hyfforddiant ar-lein dwywaith bob chwarter pan all cydweithwyr mewn cynghorau lleol gofrestru i fynychu **am ddim**. Gall sefydliadau eraill fynychu am gost o £50 ynghyd â TAW y person, y sesiwn.

I gadw lle ar un o'n sesiynau agored, ewch i Ticketsource.

Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau'n cael eu cyflenwi yn Saesneg yn unig, gyda deunyddiau Cymraeg a chyfieithu ar y pryd ar gael yn ôl yr angen. Yn 2024-25, ein nod yw cyflenwi pob cwrs yn y Gymraeg o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'n fwriad gennym gynnwys ein cyrsiau mwy newydd, *Data101* a *Deall a Defnyddio Data Perfformiad,* fel rhan o'n cynnig hyfforddiant agored yn hwyrach yn y flwyddyn hefyd.

Fel arall, am gost isel, gallwn gyflenwi cyrsiau hyfforddiant yn benodol ar gyfer eich sefydliad chi, ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar adeg a dyddiad sy'n addas i chi.

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, yna cysylltwch â Roisin Roberts.